# Ysgol Uwchradd Bodedern Welfare Bulletin

***Supporting Every Pupil, Every Day***

We're committed to creating a school environment where pupils feel safe, supported, and heard. This bulletin shares some important updates and reminders about our welfare work, and the partnerships we've built to support our students and families.

**The Importance of Good Attendance**

Good attendance is key to helping pupils achieve their full potential. When students attend regularly, they build stronger friendships, feel more confident in lessons, and are better able to cope with challenges. Missing just a few days can have a big impact on both learning and wellbeing.

If your child is finding it hard to attend school, please contact us —we can work together to provide the support they need. You can also contact local services such as Attendance and Wellbeing Services (offered by many local authorities in Wales) or charities like Barnardo's Cymru, who offer family support.

*Reminder: School starts promptly at 8:35am. Let's make every day count!*

**Staying Safe in the Community and Online**

In today's world, safety means both physical and digital. We're encouraging all families to continue open conversations about safe behaviour in the community, and online awareness—especially on social media and gaming platforms.

Our wellbeing team regularly delivers workshops on online safety, cyberbullying, and healthy relationships. If you'd like extra resources at home, organisations like South West Grid for Learning (SWGfL) and Childnet offer fantastic guides for parents and carers.

Meic Cymru is a great resource—a free and confidential helpline and online chat for young people, open 24/7.

**Police Liaison and Knife Crime Awareness**

We're proud to welcome our new Police Liaison Officer, PC Dewi Humphreys, who recently visited the school to deliver vital workshops around personal safety and the dangers of knife crime. These sessions are designed to inform and empower, helping students make positive choices and understand the consequences of risky behaviour.

This partnership is part of our wider approach to keeping young people safe. We also work alongside Fearless.org, a site run by Crimestoppers where young people can share concerns safely and anonymously.

Safety is our shared priority. If you or your child are worried, please let us know—we are here to help.

**Developing Pupil Voice: Wellbeing Ambassadors in Action**

We believe that young people should feel heard and involved in shaping their school community. Our dedicated Wellbeing Ambassadors are playing a vital role in supporting pupils and promoting positive change.

So far this year, they've:

- Helped Year 7 pupils navigate online safety
- Supported mental health awareness workshops
- Planned transition activities for Year 6 pupils joining us in September
- Championed anti-racism initiatives, including the incredible work of Show Racism the Red Card

Their leadership, empathy, and teamwork are helping build a more inclusive and caring school for everyone.

**Support is Always Available**

Life can bring challenges, but no family or young person has to face them alone. Whether it's attendance, safety, or mental health—our school team is always here to listen and help.

You can also find support through:

- Mind Cymru – for young people's mental health support
- NSPCC Cymru – for family and safeguarding advice
- Meic Cymru – free 24/7 help via phone, text or online chat
- YoungMinds – practical tips for supporting children through tough times

Please don't hesitate to reach out—either directly to school staff, or through one of these brilliant organisations.

**Let's Keep Talking**

As always, we’re here to work with you to make our school a place where every student feels safe, valued, and ready to thrive.

*If you have any questions or concerns, please contact the school’s Welfare Team or PC Dewi Humphreys via the school.*

---

# Bwletin Lles Ysgol Uwchradd Bodedern

***Cefnogi Pob Disgybl, Bob Dydd***

Rydym yn ymrwymedig i greu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn cael eu cefnogi ac yn cael eu clywed. Mae'r bwletin hwn yn rhannu rhai diweddariadau a nodiadau pwysig am ein gwaith lles, a'r partneriaethau sydd gennym i gefnogi ein disgyblion a'n teuluoedd.

**Pwysigrwydd Presenoldeb Da**

Mae presenoldeb da yn allweddol i helpu disgyblion i gyflawni eu llawn botensial. Pan fydd disgyblion yn dod i'r ysgol yn rheolaidd, maen nhw'n adeiladu cyfeillgarwch cryfach, yn magu hyder mewn gwersi, ac yn gallu ymdopi'n well â heriau.

Os yw'ch plentyn yn cael trafferth mynychu'r ysgol, cysylltwch â ni — gallwn weithio gyda'n gilydd i roi'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Gallwch hefyd gysylltu â gwasanaethau lleol fel Gwasanaethau Presenoldeb a Lles, neu elusennau fel Barnardo's Cymru sy'n cynnig cefnogaeth i deuluoedd.

*Cofiwch: Mae'r ysgol yn dechrau'n brydlon am 8:35yb. Beth am sicrhau bod pob diwrnod yn cyfrif!*

**Cadw'n Ddiogel yn y Gymuned ac Ar-lein**

Yn y byd sydd ohoni, mae diogelwch yn golygu bod yn ddiogel yn gorfforol ac yn ddigidol. Rydym yn annog pob teulu i barhau i gael sgyrsiau agored am ymddygiad diogel yn y gymuned, ac am fod yn ymwybodol o beryglon ar-lein – yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol a gemau.

Mae ein tîm lles yn darparu gweithdai'n rheolaidd ar ddiogelwch ar-lein, seiber-fwlio, a pherthnasau iach. Os hoffech adnoddau ychwanegol gartref, mae SWGfL ac Childnet yn cynnig canllawiau gwych i rieni a gofalwyr.

Cofiwch: Meic Cymru yw'r llinell gymorth gyfrinachol i gael sgwrs ar-lein am ddim – ar gael 24/7.

**Cyswllt Heddlu ac Ymwybyddiaeth am Droseddu â Chyllyll**

Rydym yn falch o groesawu ein Swyddog Cyswllt Heddlu newydd, PC Dewi Humphreys, sydd wedi bod yn yr ysgol yn ddiweddar i gynnal gweithdai pwysig am ddiogelwch personol a pheryglon troseddu â chyllyll.

Mae'r sesiynau hyn yn rhoi gwybodaeth ac yn grymuso disgyblion i wneud dewisiadau cadarnhaol ac i ddeall canlyniadau ymddygiad peryglus.

Rhan o'n dull ehangach yw'r bartneriaeth hon i gadw pobl ifanc yn ddiogel. Rydym hefyd yn cydweithio â Fearless.org, gwefan gan Crimestoppers lle gall pobl ifanc rannu pryderon yn ddiogel ac yn ddienw.

Mae diogelwch yn flaenoriaeth i ni i gyd. Os oes gennych chi neu'ch plentyn bryder, rhowch wybod i ni – rydym yma i helpu.

**Llais y Disgyblion: Llysgenhadon Lles ar Waith**

Rydym yn credu dylai pobl ifanc gael eu clywed a bod ganddynt ran yn siapio'r ysgol. Mae ein Llysgenhadon Lles wedi bod yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi disgyblion ac annog newid cadarnhaol.

Eleni, hyd yn hyn, maen nhw wedi:

- Helpu disgyblion Blwyddyn 7 gyda diogelwch ar-lein
- Cefnogi gweithdai ymwybyddiaeth iechyd meddwl
- Cynllunio gweithgareddau pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6
- Hyrwyddo ymgyrchoedd gwrth-hiliaeth gan gynnwys Show Racism the Red Card

Mae eu harweinyddiaeth, empathi a gwaith tîm yn helpu i greu ysgol fwy cynhwysol a gofalgar i bawb.

**Mae Cymorth Ar Gael Bob Amser**

Mae bywyd weithiau'n heriol, ond nid oes rhaid i deulu na disgybl wynebu hynny ar eu pen eu hunain. Boed yn bresenoldeb, diogelwch neu iechyd meddwl — mae ein tîm ysgol yma i wrando ac i helpu.

Gallwch hefyd gael cymorth gan:

- Mind Cymru – iechyd meddwl pobl ifanc
- NSPCC Cymru – cyngor i deuluoedd a diogelu plant
- Meic Cymru – cymorth am ddim, 24/7
- YoungMinds – awgrymiadau ymarferol ar gyfer cefnogi pobl ifanc

Peidiwch ag oedi i gysylltu — gyda'r ysgol, neu un o'r elusennau gwych yma.

**Cadwch y Sgwrs i Fynd**

Fel bob amser, rydym yma i gydweithio gyda chi i wneud ein hysgol yn le lle mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi ac yn barod i lwyddo.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â Thîm Lles yr ysgol neu PC Dewi Humphreys drwy'r ysgol.